**Y Groglith**

**Darlleniad 1: Salm 22:12–24**

**Darlleniad 2: Ioan 19:16–30**

Clod tragwyddol i ti, ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, am garu'r byd gymaint nes i ti roi dy unig Fab, 'er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Do, bu i ti gario'r groes ar dy galon yn nhragwyddoldeb cyn i ti ei chario ar dy gefn i Galfaria. Fel yr edrychwn ar y groes, gwelwn faint dy gariad tuag atom – cariad tragwyddol, heb ddechrau na diwedd iddo.

Ein gweddi'r Groglith hwn yw y bydd i'n cariad ymateb i'th gariad di mewn modd cadarn a phendant.

'O! annwyl Arglwydd Iesu,
Boed grym dy gariad pur
Yn torri 'nghalon galed
Wrth gofio am dy gur.'

Dad trugarog, medrent forthwylio'r bywyd allan o Iesu ar Galfaria, ond clodforwn di na fedrent forthwylio'r cariad allan ohono. Haleliwia! Diolch i ti am y modd derbyniodd yr Arglwydd Iesu'r cyfan a ddaeth i'w ran gan ddefnyddio hynny i'th bwrpas di ac er clod i ti. Medrai wneud hynny gan nad oedd unrhyw gasineb, hunandosturi nac awydd dial yn perthyn iddo. Gweithredu'n Gristnogol wnâi ef yn hytrach nag adweithio'n anghristnogol. Maddau ein bod ni mor annhebyg iddo'n aml. Maddau'r casineb, yr hunandosturi, y dyhead i dalu'n ôl a'r adweithio anghristnogol a berthyn i ni.

Clodforwn di fod Iesu wedi concro drygioni trwy beidio â bod yr un fath ag ef. Gweddïwn am ras a nerth i weithredu'n anhunanol fel y gwnaeth ef. Hyd yn oed yn ei ddioddefaint a'i farwolaeth, ein Tad, meddwl am eraill wnaeth Iesu. Rhoddodd ei fam i ofal Ioan, ac Ioan i ofal Mair.

Gwelwn yn glir, Dad, nad gofyn am gydymdeimlad wna Iesu, ond gofyn i ni gyflwyno'n hunain iddo. Pâr i ni sylweddoli po fwyaf o'r hunan a ildiwn Iddo, mwyaf o le sydd ynom Iddo fedru cymryd trosodd ynom a byw ei Fywyd ynom a thrwom. Cynorthwya ni'r Groglith hwn i'n rhoi ein hunain, ein heiddo a'n hamgylchiadau yn llwyr i'r hwn a'i rhoes ei hun yn llwyr trosom. Canmolwn di mai croes tosturi yw croes Iesu:

'Un Iesu croeshoeliedig
Yn feddyg trwy'r holl fyd.'

Rhown glod tragwyddol i ti, ein Tad, nad ydym fel rhai sydd heb obaith wrth i ni gredu yn Iesu a derbyn ei aberth fel ein hunig obaith am faddeuant pechodau a bywyd tragwyddol.

'Yn awr hen deulu'r gollfarn,
Llawenhawn;
Mae'n cymorth ar un cadarn,
Llawenhawn:
Mae galwad heddiw ato,
A bythol fywyd ynddo;
Ni chollir neb a gredo,
Llawenhawn;
Gan lwyr ymroddi Iddo,
Llawenhawn.'

Trwy farwolaeth, diddymodd Iesu'r hwn sy'n rheoli marwolaeth, sef y diafol, a rhyddhau'r rheini oll oedd, trwy ofn marwolaeth, yng ngafael caethiwed ar hyd eu hoes! Haleliwia!

'Clod byth i'r Oen am roi ei fryd
Ar fyd mor ddrud i'w brynu;
Cydganwn gyda theulu'r nef –
Rhaid Iddo ef deyrnasu.'

'Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl'. 'I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth byth bythoedd!' Yn enw gogoneddus Iesu. Amen.

***Gareth Hughes***